**COUNTY BOROUGH OF BLAENAU GWENT**

| | |
|---|---|
| **REPORT TO:** | **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL** |
| **SUBJECT:** | **PWLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL - DYDD IAU, 16 IONAWR 2020 DYDD IAU, 16 IONAWR 2020** |
| **REPORT OF:** | |

---

PRESENT: J. WILKINS (CADEIRYDD)

Councillors C. Meredith (Is-gadeirydd)
G. L. Davies
L. Elias
S. Healy
W. Hodgins
J. Holt
H. McCarthy
T. Sharrem
B. Summers

WITH:

| |
|---|
| Richard Crook (Swyddog) |
| Clive Rogers (Swyddog) |
| Matthew Perry (Swyddog) |
| Liz Thomas (Swyddog) |
| Liz Hancocks (Swyddog) |
| Matthew Stent (Swyddog) |

| ITEM | SUBJECT | ACTION |
|---|---|---|
| No. 1 | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| No. 2 | **YMDDIHEURIADAU** | |

| | | |
|---|---|---|
| | Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr M. Cook a G. Paulsen. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Datganodd y Cynghorydd W. Hodgins fuddiant yn yr eitem ddilynol:<br>Eitem Rhif 7 Dynodiad a Datganiad Gwarchodfa Natur Leol. | |
| **No. 4** | **<u>PWYLLGOR CRAFFU GWASANAETHAU CYMUNEDOL</u>**<br><br>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2020.<br><br>CYTUNWYD cadarnhau'r cofnodion. | |
| **No. 5** | **<u>DALEN WEITHREDU</u>**<br><br>Cyflwynwyd y ddalen weithredu yn deillio o gyfarfod y Pwyllgor Craffu Gwasanaethau Cymunedol a gynhaliwyd ar 5 Rhagfyr 2019, yn cynnwys:-<br><br>*<u>Pontio'r Bwlch – Gwasanaeth Gwastraff Masnach – Adolygiad Busnes Strategol</u>*<br><br>Cyfeiriodd Aelod at yr ymatebion a restrir yn Atodiad 6 a mynegodd bryderon am nifer yr ymatebion a gafwyd gan Addysg. Dywedodd y Rheolwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymunedol y byddai'n ymchwilio.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor, yn amodol ar yr uchod, i nodi'r ddalen weithredu. | |
| **No. 6** | **<u>DALEN BENDERFYNIADAU'R PWYLLGOR GWEITHREDOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i Ddalen Benderfyniadau'r Pwyllgor Gweithredol.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor nod Dalen Benderfyniadau'r Pwyllgor Gweithredol. | |
| **No. 7** | **<u>DYNODIAD A DATGANIAD GWARCHODFA NATUR LEOL</u>** | |

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.

Ar wahoddiad y Cadeirydd, cyflwynodd yr Ecolegydd yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer dynodi a datgan pump Gwarchodfa Natur Leol, sef Llynnoedd a Choetir Rhiw Beaufort, Cwm Canolog, Dinas Gerddi, Parc Bryn Bach a Choetiroedd Rhiw Sirhywi.

Ar hyn o bryd mae gan Blaenau Gwent saith Gwarchodfa Natur Lleol ddynodedig yn gyfanswm o 120.3 hectar. Mae datgan a dynodiad y safleoedd wedi cyfrannu at Flaengynllun Cydnerthedd Bioamrywiaeth ac Ecosystem (2019-22) y Cyngor a ddatblygwyd er mwyn cydymffurfio gyda gofynion Deddf Amgylchedd (Cymru) 2016.

Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.

Dywedodd Aelod ei fod yn croesawu'r adroddiad a'i fod yn cefnogi'r ardaloedd arfaethedig. Fodd bynnag, wrth ddynodi'r ardaloedd hyn, y farn gyhoeddus yw mai'r Cyngor sy'n gyfrifol am gynnal a chadw yn y dyfodol, a gydag adnoddau cyfyngedig mae'r Cyngor yn cael trafferthion i gynnal a chadw hawliau tramwy cyhoeddus ac yn y blaen.

Mewn ymateb cadarnhaodd y Swyddog fod yr ardaloedd o fewn perchnogaeth y Cyngor ac eisoes yn rhan o'n gwaith dydd i ddydd. Mae'r Cyngor eisoes yn gweithio mewn partneriaeth gyda grwpiau cymunedol i gynnal a chadw a gwella'r ardaloedd hyn, ac mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dymuno cael mwy o bobl i gymryd rhan a hyrwyddo materion adfer natur drwy brosiectau cyllid grant, e.e. Gwent Fwyaf Gydnerth.

Dywedodd Aelod ei fod yn llwyr gefnogi'r cynigion ac yn hapus i gefnogi Opsiwn 2.

Cyfeiriodd Aelod arall at Barc Bryn Bach a mynegodd bryder y gall dynodi'r effaith gael effaith niweidiol ar unrhyw gynigion yn y dyfodol a cheisiadau cynllunio dilynol a gyflwynir. Felly cynigiodd ddiwygio'r adroddiad a thynnu Parc Bryn Bach o'r rhestr ar hyn o bryd, nes cynhelir trafodaethau gydag Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin.

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd y Swyddog fod Parc Bryn Bach eisoes yn ardal SINC felly byddai Gweithdrefn Rheoli Datblygu 14 yn weithredol o ran unrhyw geisiadau cynllunio yn y dyfodol.<br>Esboniodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol na fyddai dynodi Gwarchodfa Natur Leol yn atal unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol. Fodd bynnag, byddai gan ddynodiad o'r fath y fantais o wella a diogelu'r ardal, a hefyd yn rhoi cyfleoedd i gael mynediad i adnoddau i gefnogi'r gwaith hwn.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y cyllid a sicrhawyd o'r grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant i gyflwyno 12 is-brosiect ar draws y pump ardal awdurdod lleol yng Ngwent Fwyaf a gofynnodd faint a ddyrannwyd i Flaenau Gwent.<br><br>Cadarnhaodd yr Ecolegydd fod y swm tua £210k ar gyfer 5 ardal awdurdod lleol Gwent Fwyaf. Byddai Blaenau Gwent yn derbyn tua £40k, fodd bynnag roedd yn brosiect hyblyg ac ni chafodd holl gyllideb y prosiect ei ddyrannu eto.<br><br>Dilynodd trafodaeth am gynnal a chadw pan ddywedodd y Swyddog fod dynodiad Gwarchodfa Natur Leol yn ymwneud â sicrhau diogelu'r ardaloedd hyn. Byddai cynnal a chadw llwybrau ac ati bob amser yn her o ran y gyllideb ond mae ynglŷn â blaenoriaethu a gweithio partneriaeth, a gobeithio y gellir cyfeirio cyllid at y materion hyn.<br><br>Gofynnodd y Cadeirydd os bydd ymgynghoriad cyhoeddus ar ddynodiad Gwarchodfa Natur Lleol. Cadarnhaodd y Swyddog nad yw'r ddeddfwriaeth yn gwneud ymgynghoriad cyhoeddus yn ofynnol, ond byddai'n ffurfio rhan o broses Cynllun Adnau y Cynllun Datblygu Lleol.<br><br>Wedyn cyfeiriodd y Cadeirydd at yr Opsiynau ar gyfer Argymhellion a chynigiodd Aelod Opsiwn 2, gyda gwelliant y dylid tynnu Parc Bryn Bach o'r rhestr nes cynhelir trafodaethau pellach gydag Ymddiriedolaeth Hamdden Aneurin.<br><br>Eiliwyd y cynnig.<br><br>Wedyn cymerwyd pleidlais ar y diwygiad arfaethedig a phleidleisiodd 4 Aelod o blaid y gwelliant.<br><br>Cynigiodd Aelod arall i gefnogi Opsiwn 2, fel yr amlinellir yn yr adroddiad, ac eiliwyd hyn. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Wedyn cymerwyd pleidlais ar Opsiwn 2 a phleidleisiodd 5 Aelod o blaid.<br><br>Felly CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a chefnogi Opsiwn 2, fel yr amlinellir yn yr adroddiad, sef dynodi a datgan pump Gwarchodfa Natur Leol: Coetiroedd Rhiw Sirhywi, Llynnoedd a Choetir Rhiw Beaufort, Parc Bryn Bach, Dinas Gerddi a'r Cwm Canolog. | |
| **No. 8** | **ADOLYGU GWASANAETH GOLEUADAU STRYD**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Cyflwynodd Arweinydd Tîm Gwastraff a Rheolaeth Fflyd yr adroddiad sy'n rhoi diweddariad ar yr Adolygiad o Oleuadau Stryd, y gofynnwyd amdano yn dilyn Sesiwn Wybodaeth i Aelodau ym mis Chwefror 2019. Mae'r adolygiad yn cynnwys tair blaenoriaeth drosfwaol:<br><br>• Blaenoriaeth 1 – Diwydrwydd ariannol<br>• Blaenoriaeth 2 – Rheoli stoc ac adnoddau<br>• Blaenoriaethau 3 – Sbardunau deddfwriaethol a pherfformiad y gwasanaeth<br><br>Aeth y Swyddog drwy'r adroddiad a thynnu sylw at bwyntiau ynddo.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at adran 2.4 yr adroddiad sy'n amlinellu'r allbynnau ar gyfer Blaenoriaeth 2, a gofynnodd os gellid defnyddio'r stoc gweddilliol i ymgymryd ag atgyweiriadau mewnol ac yn y blaen.<br><br>Mewn ymateb, esboniodd y Swyddog y bu gostyngiad sylweddol yn y Tîm Peirianneg dros y blynyddoedd a bod y math o waith a wneir wedi newid i fân atgyweiriadau mwy ymatebol, a gyda gwaith mawr yn cael ei roi mas ar gontract. Fodd bynnag, cadarnhaodd bod stoc segur yn cael ei ddefnyddio lle'n bosibl, os nad oedd yn ddarfodedig.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at hawliadau yswiriant a gofynnodd pa broses a gynhaliwyd yn flaenorol ac os oedd gan y Cyngor unrhyw hawliadau yn dal ar ôl. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Dywedodd y Swyddog nad oedd unrhyw system yn ei lle'n flaenorol. Cafodd y mater ei godi mewn sesiwn wybodaeth i Aelodau felly edrychodd y Tîm ar system a ddefnyddir gan Gyngor Dinas Caerdydd a defnyddio'r dull hwnnw. Bu'r achos prawf cyntaf yn llwyddiannus, gydag adferiad cost llawn bron, a byddid yn edrych ar achosion eraill.<br><br>Cyfeiriodd Aelod at y llusernau LED solar a gyflwynwyd yn y Drenewydd, Glynebwy. Dywedodd y Swyddog yn anffodus nad oes digon o olau haul yn y Fwrdeistref yn annigonol i wefru'r llusernau hyn, ond mae technoleg amgen yn cael ei hystyried.<br><br>Dilynodd trafodaeth am gapasiti o fewn y Tîm a'r rhaglen Refit, a chadarnhaodd y Swyddog y byddai symud i lusernau LED yn gostwng gofynion cynnal a chadw ac yn galluogi'r Tîm i ymateb i waith arall.<br><br>Dywedodd Aelod y gall gostwng cynnal a chadw effeithio ar lefelau staffio yn y dyfodol. Dywedodd hefyd y dylai newid i lusernau LED gael effaith sylweddol ar y gyllideb.<br><br>Mewn ymateb dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol y dylai wneud hynny ar bapur, ond bod prisiau ynni yn cynyddu yn gyflymach na'r adenilliad ar weithredu cynlluniau arbed ynni. Fodd bynnag, byddai cost peidio gwneud y gweithiau hyn yn profi'n ddrutach yn y dyfodol.<br><br>Dilynodd trafodaeth fer bellach pan eglurodd y Swyddog bwyntiau a godwyd gan Aelodau.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad a nodi'r wybodaeth a gynhwysir ynddo (Opsiwn 1). | |
| **No. 9** | **<u>PERFFORMIAD ABSENOLDEB SALWCH GWEITHLU GWASANAETHAU CYMUNEDOL</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol.<br><br>Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymunedol yr adroddiad sy'n amlinellu perfformiad absenoldeb salwch y Gyfarwyddiaeth a'r camau gweithredu a gynigir ar gyfer gwella. Er bod lefelau salwch yn parhau'n uchel, dywedodd ei bod yn bwysig nodi nad yw'r rhan fwyaf o aelodau staff yn cymryd fawr ddim neu ddim absenoldeb | |

| | | |
|---|---|---|
| | salwch ac yn mynychu gwaith yn rheolaidd. Mae gan fwyafrif helaeth aelodau staff y Cyngor lefelau presenoldeb rhagorol, gan fod data'n dangos fod 2,463 aelod o staff wedi mynychu'r gwaith bob dydd yn ystod y cyfnod rhwng Ebrill 2018 a Mawrth 2019 gyda'r Cyngor â lefel presenoldeb o 94.3%.<br><br>Yn nhermau camau gweithredu ar gyfer gwella, dywedodd y Swyddog er fod tystiolaeth o weithredu gan reolwyr wrth reoli salwch, mae'r Gyfarwyddiaeth yn cydnabod bod angen gwell defnydd o system iTrent. Cytunwyd ar nifer o gamau gweithredu, fel yr amlinellir yn Adran 4.1 yr adroddiad a chaiff y rhain eu monitro gan Dîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth, a byddai absenoldeb salwch yn parhau i fod yn eitem reolaidd ar agenda'r Tîm Rheoli.<br><br>Dywedodd Aelod fod angen mwy o wybodaeth yn nhermau cofnodi cyfarfodydd dychwelyd i'r gwaith ar system iTrent.<br><br>Mewn ymateb, dywedodd y Swyddog fod yr adroddiad wedi ei lenwi gan Datblygu Sefydliadol ac mai hwn oedd y tro cyntaf i'r adroddiad gael ei gyflwyno yn y fformat hwn. Cadarnhaodd fod cyfarfodydd dychwelyd i'r gwaith yn digwydd ond mewn rhai achosion nad oeddent yn cael eu hadrodd drwy'r system iTrent. Cadarnhaodd y byddid yn codi sylwadau'r Aelod gyda Datblygu Sefydliadol.<br><br>Dilynodd trafodaeth pan ddywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol ei bod yn bwysig nodi fod cyfarfodydd dychwelyd i'r gwaith yn cael eu cynnal a bod Rheolwyr yn cydymffurfio gyda'r Polisi Rheoli Presenoldeb. Fodd bynnag, mae rhai rhannau o'r Gyfarwyddiaeth sy'n methu cael mynediad i'r system; edrychir ar hyn, ond rhoddodd sicrwydd fod cyfarfodydd dychwelyd i'r gwaith yn cael eu cynnal er nad oeddent yn cael eu cofnodi ar iTrent.<br><br>Dywedodd y Cadeirydd fod angen rhoi mwy o ystyriaeth i fformat yr adroddiad i sicrhau ein bod yn cael yr wybodaeth oedd ei hangen, a byddai hefyd yn ddiddorol gweld beth oedd barn Pwyllgorau Craffu eraill ar y fformat.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i argymell derbyn yr adroddiad ac ar ôl craffu ar yr wybodaeth perfformiad ar absenoldeb salwch a threfniadau arfaethedig i wella cyfraddau presenoldeb o fewn y Gyfarwyddiaeth Adfywio a Gwasanaethau Cymunedol, trafodwyd meysydd pellach ar gyfer gwella er mwyn hybu gwelliant perfformiad. (Opsiwn 1). | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| **No. 10** | **<u>BLAENRAGLEN GWAITH - 27 CHWEFROR 2020</u>**<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i'r Flaenraglen Gwaith ar gyfer y cyfarfod a drefnwyd ar gyfer 27 Chwefror 2020.<br><br>CYTUNODD y Pwyllgor i dderbyn yr adroddiad. | |